Arolygiaeth Prawf EF

Arolygiad o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn

# Sir y Fflint

Arolygiaeth Prawf EF, Gorffennaf 2024

# Cynnwys


**Rhagair** ........................................ **3**
**Sgoriau** ........................................ **5**
**Argymhellion** ........................................ **6**
**Cefndir** ........................................ **7**
**Parth un: Darpariaeth sefydliadol** ........................................ **9**
1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth ........................................ 9
1.2. Staff ........................................ 11
1.3. Partneriaethau a gwasanaethau ........................................ 13
1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau ........................................ 16
**Parth dau: Datrysiadau yn y llys** ........................................ **21**
2.1. Asesiad ........................................ 21
2.2. Cynllunio ........................................ 22
2.3. Gweithredu a chyflawni ........................................ 23
2.4. Adolygu ........................................ 25
**Parth tri: Datrysiadau y tu allan i'r llys** ........................................ **27**
3.1. Asesiad ........................................ 27
3.2. Cynllunio ........................................ 28
3.3. Gweithredu a chyflawni ........................................ 29
3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys ........................................ 31
**4.1. Adsefydlu** ........................................ **33**
4.1. Y polisi a'r ddarpariaeth adsefydlu ........................................ 33
**Rhagor o wybodaeth** ........................................ **35**



### Cydnabyddiaethau

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EF Pauline Burke, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a chydweithwyr o bob rhan o'r Arolygiaeth. Hoffem ddiolch i bawb a helpodd i gynllunio a chymryd rhan yn yr arolygiad; ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl heb eu cymorth a'u cydweithrediad.


### Rôl Arolygiaeth Prawf EF

Arolygiaeth Prawf EF yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid gydag oedolion a phlant.

Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu. Rydym yn tynnu sylw at arferion da a gwael, ac yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth i annog gwasanaethau o ansawdd uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn siarad yn annibynnol.

Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw'r unigolion dan sylw.


Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.



**Cyhoeddwyd gan:**
Arolygiaeth Prawf EF
Llawr 1af Canolfan Llysoedd Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter
@hmiprobation

ISBN: 978-1-916621-38-1



**© Hawlfraint y Goron 2024**

# Rhagair

Mae’r arolygiad hwn yn rhan o’n rhaglen o arolygiadau o’r gwasanaeth troseddau ieuenctid (GCI). Rydym wedi arolygu a sgorio GCI Sir y Fflint mewn tri maes eang: y trefniadau ar gyfer darparu’r gwasanaeth yn sefydliadol, ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant sy’n cael eu dedfrydu gan y llysoedd, ac ansawdd gwaith datrysiadau y tu allan i’r llys.

Yn gyffredinol, mae GCI Sir y Fflint yn cael sgôr ‘Da’. Bu i ni hefyd arolygu ansawdd y ddarpariaeth a’r polisi ailsefydlu, a oedd yn cael ei ystyried yn ‘Dda’ ar wahân.

Mae GCI Sir y Fflint yn wasanaeth sy’n datblygu, oherwydd yn y blynyddoedd diwethaf mae wedi symud o gael ei gynnwys mewn gwasanaethau ieuenctid integredig i fod yn wasanaeth ar wahân o fewn y portffolio addysg ac ieuenctid. Mae’r uwch reolwr yn arweinydd dylanwadol, ac mae hyn wedi helpu i godi proffil y GCI, o fewn yr awdurdod lleol a gydag asiantaethau partner. Y bwrdd rheoli gweithredol sy’n llywodraethu’r GCI, ac mae’n cael ei gadeirio gan brif weithredwr y cyngor. Cefnogir y bwrdd gan adroddiadau perfformiad cynhwysfawr ac mae ganddo gysylltiadau priodol â fforymau strategol eraill.

Daethon ni o hyd i staff brwdfrydig, cadarnhaol a llawn cymhelliad sydd wedi ymrwymo i sicrhau’r gorau i’r plant maen nhw’n gweithio gyda nhw. Roedd yn braf gweld cynlluniau’n cael eu cydgynhyrchu gyda phlant, a staff a wnaeth bopeth o fewn eu gallu i annog plant i ymgysylltu. Fodd bynnag, mae angen gwella trefniadau partneriaeth. Mae’r ddarpariaeth gofal iechyd yn gyfyngedig, yn enwedig ar gyfer iechyd a lles emosiynol plant a’u hanghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Ni fu unrhyw swyddog prawf ar secondiad i’r GCI ers nifer o flynyddoedd ac er bod yna swyddogion cymorth addysg i gydlynu gwasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, nid ydynt yn gweithio’n uniongyrchol gyda phlant. Gwelsom fod rheolwyr achos yn aml yn gorfod llenwi’r bylchau yn narpariaeth y bartneriaeth a mynd yr ail filltir i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu.

Ar gyfer gwaith ar ôl y llys a datrysiadau y tu allan i’r llys, gwelsom gwaith o ansawdd uchel wrth asesu plant. Fodd bynnag, mae angen gwella ansawdd y cynllunio ar gyfer datrysiadau y tu allan i’r llys ac ar gyfer rheoli risg plant o niwed i eraill.

Nid yw’r panel ar gyfer datrysiadau y tu allan i’r llys (y Biwro) yn aml-asiantaeth, ac mae rheolwyr achos yn cwblhau asesiadau ar gyfer y panel ond nid ydynt yn ei fynychu. Felly, nid oes unrhyw un sydd wedi cwrdd â’r plentyn a’i deulu yn bresennol yn y panel i helpu i hysbysu penderfyniadau ac rydym yn argymell bod y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu.

Mae’r GCI wedi ymrwymo i fod yn wasanaeth sy’n ystyriol o drawma. Mae'n gweithio gyda sefydliadau academaidd i wneud yn siŵr bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn cael eu harwain gan ymchwil ac yn seiliedig ar dystiolaeth, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y gwaith a arolygwyd gennym. Mae’r GCI yn gwneud gwaith eithriadol gyda dioddefwyr, gan sicrhau eu bod yn teimlo’n ddiogel ac yn cael eu cefnogi. Gwelsom lefelau uchel o gymhelliant, angerdd ac eiriolaeth ar ran dioddefwyr. Dylai Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint fod yn falch o’r hyn y mae wedi’i gyflawni ers dod yn wasanaeth ar wahân. Yn yr adroddiad hwn, gwnawn chwe argymhelliad, a hyderwn y byddant yn cynorthwyo’r gwasanaeth wrth iddo barhau â’i daith ddatblygu.



**Martin Jones CBE**
Prif Arolygydd Prawf EF

## Sgoriau

| **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint**<br>Dechreuodd y gwaith maes ym mis Mawrth 2024 | | **Sgôr** | **20/36** |
|---|---|---|---|
| **Sgôr gyffredinol** | | **Da** | ● |
| **1.** | **Darpariaeth sefydliadol** | | |
| 1.1 | Llywodraethu ac arweinyddiaeth | **Da** | ● |
| 1.2 | Staff | **Da** | ● |
| 1.3 | Partneriaethau a gwasanaethau | **Angen gwella** | ● |
| 1.4 | Gwybodaeth a chyfleusterau | **Da** | ● |
| **2.** | **Datrysiadau yn y llys** | | |
| 2.1 | Asesiad | **Da** | ● |
| 2.2 | Cynllunio | **Angen gwella** | ● |
| 2.3 | Gweithredu a chyflawni | **Da** | ● |
| 2.4 | Adolygu | **Da** | ● |
| **3.** | **Datrysiadau y tu allan i'r llys** | | |
| 3.1 | Asesiad | **Rhagorol** | ☆ |
| 3.2 | Cynllunio | **Angen gwella** | ● |
| 3.3 | Gweithredu a chyflawni | **Angen gwella** | ● |
| 3.4 | Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys | **Angen gwella** | ● |
| **4.** | **Adsefydlu[1]** | | |
| 4.1 | Y polisi a'r ddarpariaeth ailsefydlu | **Da** | ● |

[1] Nid yw'r sgôr ar gyfer ailsefydlu yn dylanwadu ar sgôr gyffredinol y GCI.

# Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiad, rydym wedi gwneud chwech o argymhellion y credwn, os cânt eu gweithredu, y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwasanaethau troseddau ieuenctid yn Sir y Fflint. Bydd hyn yn gwella bywydau'r plant sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, ac yn diogelu'r cyhoedd yn well.

**Dylai partneriaid gofal iechyd Sir y Fflint:**

1. sicrhau bod darpariaeth gofal iechyd ar gyfer plant y GCI yn diwallu eu hanghenion iechyd a lles emosiynol
2. sicrhau bod plant sy'n cael eu goruchwylio gan y GCI yn cael eu hasesu a bod ganddynt fynediad penodol at wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

**Dylai'r bwrdd rheoli gweithredol:**

3. parhau i herio'r Gwasanaeth Prawf i sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol ac yn darparu'r ddarpariaeth secondiad briodol i'r GCI
4. adolygu fformat a phwrpas y Biwro a sicrhau ei fod yn cael y mewnbwn perthnasol gan staff sydd wedi cwrdd â'r plentyn a'r asiantaethau angenrheidiol sy'n bresennol, fel bod datrysiadau y tu allan i'r llys yn diwallu anghenion plant.

**Dylai uwch reolwr y GCI:**

5. gwella ansawdd y cynllunio mewn gwaith achos ar ôl y llys a datrysiadau y tu allan i'r llys er mwyn sicrhau gweithgarwch cynllunio o ansawdd uchel yn gyson, wedi'i deilwra i bob plentyn
6. cryfhau ansawdd a chysondeb goruchwyliaeth rheolwyr i sicrhau ei bod yn ysgogi gwelliannau yn ansawdd yr ymarfer.

# Cefndir

Fe wnaethom y gwaith maes yng Ngwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) Sir y Fflint dros gyfnod o wythnos, gan ddechrau ar 11 Mawrth 2024. Fe wnaethom archwilio achosion lle dechreuodd y ddedfryd neu'r drwydded, lle cyflawnwyd datrysiadau y tu allan i'r llys, a lle dedfrydwyd neu lle rhyddhawyd achosion ailsefydlu rhwng 13 Mawrth 2023 a 05 Ionawr 2024. Rydym hefyd wedi cynnal 14 cyfweliad gyda rheolwyr achos.

Mae Sir y Fflint yn awdurdod lleol unedol yng nghornel gogledd-ddwyreiniol Cymru, sy'n ffinio â Swydd Gaer, Wrecsam a Sir Ddinbych. Mae cymunedau arfordirol yn Sir y Fflint yn profi lefelau uchel o amddifadedd, yn enwedig mewn perthynas â chyflogaeth, incwm, addysg a diogelwch cymunedol. Yn 2021, roedd y Gymraeg yn cael ei siarad gan 23.9 y cant o'r boblogaeth yn Sir y Fflint o'i gymharu â 29.5 y cant ledled Cymru. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ers 2011. Ar hyn o bryd, mae 6.23 y cant o blant Sir y Fflint yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae poblogaeth Sir y Fflint yn wyn ar y cyfan, a dros y blynyddoedd, adlewyrchwyd hyn yn y boblogaeth plant sy'n cyflawni troseddau.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gweithredu ar draws Sir y Fflint, ac mae'r GCI yn cydweithio â gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid eraill yn y rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolaeth ar y cyd mewn fforymau rhanbarthol a chenedlaethol, adolygiad ar y cyd o waith datrysiadau y tu allan i'r llys, gweithredu'r rhaglen Turnaround a chomisiynu hyfforddiant ac ymgysylltu â phartneriaid i fynd i'r afael â materion adnoddau. Mae grwpiau ymarferwyr rhanbarthol yn rhannu arferion gorau ar draws y rhanbarth.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae GCI Sir y Fflint wedi dod yn wasanaeth ar wahân yng Nghyngor Sir y Fflint, wedi'i wahanu oddi wrth y gwasanaeth ieuenctid integredig. Mae bellach yn rhan o'r portffolio addysg ac ieuenctid, ac mae hyn wedi rhoi proffil uwch iddo ar draws y bartneriaeth. Felly, mae'n wasanaeth sy'n dod i'r amlwg, dan arweiniad uwch reolwr, sy'n adrodd i brif swyddog y portffolio addysg ac ieuenctid. Bwrdd partneriaeth gweithredol y GCI sy'n llywodraethu'r GCI. Caiff ei gadeirio gan brif gyfarwyddwr gweithredol Cyngor Sir y Fflint, sydd wedi bod yn gadeirydd ers dwy flynedd. Cefnogir yr uwch reolwr gan reolwr tîm a dau uwch ymarferydd. Mae gan bob un ohonynt arweinwyr thematig a meysydd cyfrifoldeb. Adeg yr arolygiad roedd un o'r uwch ymarferwyr ar absenoldeb mamolaeth, ac felly roedd ei meysydd cyfrifoldeb a rheolaeth linell wedi cael eu hailddyrannu dros dro. Mae 24 aelod staff yn y GCI a thri gwirfoddolwr. Ym mis Chwefror 2024, roedd 20 o ymyriadau ar ôl y llys a 24 o ddatrysiadau y tu allan i'r llys yn agored gan y GCI.

Mae'r gwasanaeth yn cynhyrchu data cynhwysfawr ar garfan plant y GCI. Bob blwyddyn,
mae'n cynnal dadansoddiad carfan cymharol o achosion i gefnogi'r gwaith o gynllunio a phennu blaenoriaethau'r gwasanaeth. Mae dadansoddiad o ddata perfformiad y GCI yn dangos bod nifer y
newydd-ddyfodiaid i'r system cyfiawnder ieuenctid yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae cyfran y plant sy'n aildroseddu a pha mor aml y maent yn gwneud hynny hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae yna banel rhwystro ac atal sy'n edrych ar atgyfeiriadau a wnaed ar gyfer ymyrraeth gynnar ac mae nifer y plant sy'n cael eu hatgyfeirio i gael cymorth dargyfeirio wedi cynyddu. Mae hyn yn duedd gadarnhaol, ac mae'n dangos bod gwasanaethau'n ymyrryd â phlant yn gynharach, gyda'r bwriad o atal troseddu a lleihau nifer y newydd-ddyfodiaid.

# Parth un: Darpariaeth sefydliadol

Er mwyn arolygu'r ddarpariaeth sefydliadol, buom yn adolygu'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynodd y GCI ymlaen llaw, a chynaliasom 12 o gyfarfodydd, gan gynnwys gyda staff, gwirfoddolwyr, rheolwyr, aelodau'r bwrdd, a staff y bartneriaeth a'u rheolwyr.

Roedd y prif ganfyddiadau am ddarpariaeth sefydliadol fel a ganlyn.

## 1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth

| | |
|---|---|
| Mae dulliau llywodraethu ac arweinyddiaeth y GCI yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r gwaith o ddarparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn. | Da |

**Cryfderau:**

- Y bwrdd rheoli gweithredol sy'n llywodraethu'r GCI. Prif weithredwr y cyngor sy'n cadeirio'r bwrdd, gyda'r prif swyddog addysg ac ieuenctid yn gweithredu fel dirprwy gadeirydd. Maent yn gweithio ochr yn ochr â'r uwch reolwr i ddarparu gweledigaeth glir ar gyfer y bwrdd.
- Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys yr holl bartneriaid statudol, sy'n deall y weledigaeth a'r risgiau i'r GCI. Mae'r bwrdd yn cael ei gefnogi gan grŵp cyflawni amlasiantaeth sy'n helpu i wneud cynnydd tuag at flaenoriaethau'r GCI a'r bartneriaeth.
- Mae'r bwrdd yn derbyn gwybodaeth o ansawdd uchel am berfformiad a chynnydd y gwasanaeth o ran ei gynlluniau gweithredu. Mae hefyd yn derbyn gwersi o archwiliadau ac adroddiadau arolygu, ac o adroddiadau thematig manwl ac adroddiadau ar berfformiad cenedlaethol.
- Mae aelodau'r Bwrdd yn cyfrannu'n weithredol at y cyfarfod. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach pan fydd asiantaethau partner yn dechrau adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol y GCI sy'n gysylltiedig â'u maes ymarfer.
- Mae uwch reolwr y GCI yn arweinydd profiadol, gwybodus a dylanwadol sy'n defnyddio ymchwil i helpu i ddatblygu'r gwasanaethau a ddarperir. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar godi proffil y GCI yn yr awdurdod lleol a gydag asiantaethau partner.
- Cynrychiolir y gwasanaeth yn dda ar draws fforymau partneriaeth strategol a gweithredol. Mae yna gysylltiadau cyfiawnder ieuenctid cryf ar draws rhanbarth Gogledd Cymru ac mae'r GCI yn cael ei gynrychioli ar amrywiol fforymau lleol a chenedlaethol.
- Comisiynodd y bwrdd adolygiad cymheiriaid gan Bartneriaeth Gwella'r Sector Cyfiawnder Ieuenctid, a oedd yn edrych ar arweinyddiaeth a llywodraethu. Yn dilyn hyn, cafodd sesiynau datblygu i greu cynllun gweithredu a monitro cynnydd yng nghyfarfodydd y bwrdd.
- Cefnogir y bwrdd gan grŵp cyflawni, sydd wedi ailflaenoriaethu ac ailffocysu ei agenda yn dilyn yr adolygiad gan gymheiriaid.

- Mae'r uwch reolwr yn rhannu prif ganfyddiadau'r bwrdd gyda'r gwasanaeth i sicrhau bod staff yn ymwybodol o dueddiadau a blaenoriaethau lleol.
- Mae un o ymarferwyr y GCI yn aelod gweithredol o'r bwrdd ac mae aelodau'r bwrdd wedi cwrdd â staff y GCI.
- Datblygwyd y cynllun cyfiawnder ieuenctid drwy ymgynghori ag aelodau'r bwrdd a'r staff.
- Mae aelodau'r bwrdd yn dysgu am brofiadau plant drwy wrando ar astudiaethau achos mewn cyfarfodydd bwrdd.
- Adeg yr arolygiad roedd uwch ymarferwr ar absenoldeb mamolaeth, ac felly roedd ei meysydd cyfrifoldeb a rheolaeth linell wedi cael eu hailddyrannu dros dro. Fodd bynnag, roedd pawb yn glir ynghylch eu prif feysydd ymarfer ac roedd llinellau atebolrwydd clir.
- Mae'r tîm rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion sy'n ymwneud ag ymarfer megis recriwtio a hyfforddi, ac i adolygu perfformiad, edrych ar lwyth achosion, a deall proffil y plant.
- Mae perthynas waith dda rhwng y rheolwyr, sydd i gyd yn deall ac yn hyrwyddo gweledigaeth ac amcanion y GCI.

**Meysydd i'w gwella:**

- Mae swydd prawf y GCI wedi bod yn wag ers dros ddwy flynedd ac nid oes darpariaeth benodol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu. Fodd bynnag, rhoddodd aelodau'r bwrdd enghreifftiau i ni o sut yr oeddent wedi herio asiantaethau ac uwchgyfeirio eu pryderon am y diffyg adnoddau.
- Mae gan y GCI gynllun gweithredu ar anghymesuredd ac mae yna grŵp strategol sy'n adolygu grwpiau sy'n cael eu gorgynrychioli. Fodd bynnag, mae angen i hyn gael effaith ar lefel weithredol i helpu i wella ymarfer wrth asesu plant a darparu ymyriadau sy'n adlewyrchu eu nodweddion gwarchodedig.
- Er bod y broses gynefino i aelodau'r bwrdd yn cael ei chefnogi gan gyfarfodydd gyda'r uwch reolwr, mae angen safoni'r broses hon fel bod pob aelod newydd yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r bwrdd.

## 1.2. Staff

| Mae staff yn y GCI wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i bob plentyn. | Da |
| --- | --- |

**Cryfderau:**

- Mae'r staff yn hapus, yn gadarnhaol ac yn llawn cymhelliant yn eu gwaith. Dywedodd staff eu bod yn teimlo bod eu rheolwyr a'u cymheiriaid yn eu cefnogi.
- Mae'r tîm rheoli'n gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae staff yn teimlo'n hyderus i gysylltu â rheolwyr i gael cyngor ac arweiniad.
- Mae rheolwyr wedi darparu adroddiadau i'r bwrdd rheoli gweithredol yn amlinellu materion sy'n ymwneud â swyddi gwag a chapasiti staff. Arweiniodd hyn at fwy o gyllid ar gyfer swyddi a galluogodd y gwasanaeth i recriwtio staff mwy parhaol a gwneud y gwasanaeth yn fwy cynaliadwy.
- Mae lefel dda o amrywiaeth yn y tîm, gydag anghenion penodol yn cael eu hadlewyrchu yn y grŵp staff.
- Wrth ddyrannu achosion, mae'r gwasanaeth yn defnyddio'r un rheolwr achos lle bo hynny'n bosibl. Mae hyn yn helpu plant i ffurfio perthynas gyson ac ymddiriedus gyda gweithwyr. Mae'r staff yn teimlo bod y gwaith a ddyrennir yn deg ac yn gydweithredol.
- Mae'r staff yn derbyn goruchwyliaeth fisol reolaidd a phwrpasol. Mae staff ar secondiad yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi gan eu hasiantaeth gartref a'u rheolwr llinell yn y GCI.
- Mae gan staff sy'n rheoli achosion cymhleth, er enghraifft achosion sy'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol niweidiol, fynediad at oruchwyliaeth a chymorth clinigol. Mae hyn yn cynnwys cymorth a ddarperir drwy'r model rheoli achosion uwch.
- Mae staff ar draws y bartneriaeth yn cydweithio ac yn blaenoriaethu gweithio ar y cyd i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd.
- Mae staff yn derbyn adborth unigol o archwiliadau. Trafodir themâu mewn cyfarfodydd tîm fel bod staff yn gwybod beth sy'n cael ei wneud yn dda a beth sydd angen ei wneud yn wahanol i wella ymarfer.
- Mae proses gynefino drwyadl ar waith ar gyfer staff newydd, ac mae gweithdrefnau yn bodoli ar gyfer mynd i'r afael â chymhwysedd staff.
- Mae gan y GCI gynllun olyniaeth a datblygu, ac mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i chwilio am gyfleoedd hyfforddi. Mae'r gwasanaeth yn annog datblygiad staff yn rhagweithiol ac yn cynnig cyfleoedd rheoli o fewn y gwasanaeth. Mae hefyd yn cefnogi staff i gwblhau cymwysterau allanol.
- Mae gwirfoddolwyr yn cael eu cefnogi yn eu rôl drwy oruchwyliaeth unigol, lle mae eu datblygiad proffesiynol a phersonol yn cael ei ystyried.
- Mae arferion sy'n seiliedig ar drawma yn cael eu datblygu ar draws y gwasanaeth. Mae yna ymarferydd arweiniol ac mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant.

- Roedd cyfiawnder adferol a gwaith gyda dioddefwyr yn gryfder sylweddol. Gwelsom lefelau uchel o gymhelliant, angerdd ac eiriolaeth ar ran dioddefwyr.
  Rhoddodd staff wybod i ddioddefwyr am eu hawliau, eu hannog i ymgysylltu, a'u helpu i deimlo'n ddiogel. Gweithiodd y swyddog cyfiawnder adferol a dioddefwyr ochr yn ochr ag ymarferwyr i sicrhau eu bod yn ymgorffori barn dioddefwyr yn eu hymarfer.
- Mae staff yn gwneud popeth o fewn eu gallu i annog y plentyn i ymgysylltu'n dda. Mae'r staff a'r rheolwyr yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn adnabod eu plant yn dda. Mae'r staff yn eiriol dros blant ac yn herio asiantaethau eraill pan fo hynny'n briodol i sicrhau bod plant yn derbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae'r staff yn mynd yr ail filltir i sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu. Mae hyn yn aml yn golygu eu bod yn pontio'r bylchau mewn darpariaeth partneriaeth.
- Mae'r uwch reolwr yn cynnal asesiadau staff blynyddol i adolygu lles cyffredinol y tîm. Mae hyn yn rhoi cyfle i drafod elfennau strategol a gweithredol ehangach y gwasanaeth.
- Mae rheolwyr yn cydnabod arferion da drwy negeseuon e-bost. Mae'r staff yn derbyn canmoliaeth drwy oruchwyliaeth. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan reolwyr a chan eu cymheiriaid ac mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo diwylliant cefnogol.

**Meysydd i'w gwella:**

- Rhaid i reolwyr achos gwmpasu adnoddau partneriaeth cyfyngedig, er enghraifft ym maes addysg ac iechyd. Gall hyn gynyddu eu llwyth gwaith ac arwain at anghysondebau yn ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.
- Roedd goruchwyliaeth y rheolwyr yn diwallu anghenion yr achos mewn dim ond ychydig dros hanner yr achosion a arolygwyd. Nid oedd yn ysgogi ymarfer o safon uchel yn gyson.
- Gellid ehangu cyfleoedd i wirfoddolwyr i gynnwys rolau eraill o fewn y gwasanaeth, megis mentora. Gallai'r gwasanaeth hefyd ystyried sut i gynnwys gwirfoddolwyr mewn diwrnodau cwrdd i ffwrdd a chyfarfodydd tîm.

## 1.3. Partneriaethau a gwasanaethau

| | |
|---|---|
| Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael, sy'n golygu bod modd cynnig darpariaeth bersonol ac ymatebol i bob plentyn. | Angen gwella |

**Cryfderau:**

- Mae gan y GCI fynediad at gyfres gynhwysfawr o ddata, y mae'n ei defnyddio i wella ei waith, er enghraifft gyda phlant sy'n derbyn gofal.
- Bob blwyddyn, mae'n cynnal dadansoddiad carfan cymharol o achosion i gefnogi'r gwaith o gynllunio a phennu blaenoriaethau. Mae hyn yn cynnwys monitro profiadau niweidiol y garfan yn ystod plentyndod er mwyn deall anghenion a phrofiadau plant a theuluoedd.
- Mae plant sy'n cael eu hasesu fel rhai risg uchel yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd strategaeth risg amlasiantaeth y GCI, ac mewn fforymau eraill, gan gynnwys y panel plant sydd ar goll, sy'n cael ei ecsbloetio ac sy'n cael eu masnachu.
- Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i fod yn wasanaeth sy'n ystyriol o drawma. Mewn partneriaeth â Hyb ACE Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru) a Phrifysgol Wrecsam, mae wedi defnyddio pecyn cymorth TrACE i ddatblygu cynllun gweithredu ac mae'n monitro cynnydd yn erbyn hyn yn rheolaidd.
- Mae gan y GCI fynediad at nifer o wasanaethau ychwanegol, gan gynnwys rheoli achosion uwch. Darperir hyn ledled Cymru gan y Gwasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed ar gyfer plant sydd â'r pryderon ymddygiad mwyaf cymhleth. Ceir hefyd Empire Fighting Chance, sy'n rhaglen i rymuso plant ac sy'n cyfuno hyfforddiant bocsio digyswllt â mentora ar sail seicoleg.
- Mae'r swyddog cyfiawnder adferol a dioddefwyr wedi sefydlu fframwaith strwythuredig i sicrhau bod y dioddefwr yn cael ei gynnwys a'i gefnogi, a bod eu barn yn cael ei chlywed. Mae hefyd yn gweithio gyda dioddefwyr corfforaethol i feithrin perthynas â chymunedau lleol. Mae staff yn sicrhau bod dioddefwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod plant sydd wedi cyflawni troseddau yn cael eu hintegreiddio yn eu cymunedau.
- Mae sesiynau gwneud iawn wedi'u teilwra i anghenion y plentyn, er y gellid gwneud mwy i ddatblygu gweithgareddau penodol ar gyfer merched. Maen nhw'n cael eu cynnig i bob plentyn sy'n agored i'r GCI, er mwyn eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol.
- Mae gan y GCI swyddogion cymorth addysg, ac mae dau ohonynt ar secondiad o'r Gwasanaeth Cynhwysiant. Maent yn gyfrifol am gydlynu gwasanaethau cefnogi addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer plant y GCI, ond nid ydynt yn darparu ymyriadau unigol. Mae'r swyddogion yn darparu cysylltiad rhwng addysg a gwasanaethau gyrfaoedd ac yn monitro plant drwy banel addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y GCI. Maent hefyd yn cysylltu â Gyrfa Cymru i gefnogi plant dros 16 oed.

- Ceir ystod gynhwysfawr o fforymau partneriaeth. Mae'r rhain yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â gwaharddiadau, herio a chefnogi ysgolion, a hwyluso mynediad i blant y GCI i addysg bellach. Mae darparwyr addysg yn ymateb i anghenion plant y GCI. Mae gweithio mewn partneriaeth yn helpu i wella gallu ysgolion i'w rheoli a'u cadw mewn addysg.
- Mae yna gysylltiad da â gwasanaethau cymdeithasol i blant a thystiolaeth o weithio ar y cyd. Mae'r staff yn deall sut i atgyfeirio plentyn at y gwasanaethau cymdeithasol os ydynt yn poeni am eu diogelwch a'u lles.
- Mae gan y GCI lwybr ar waith ar gyfer gweithio gydag ymddygiad rhywiol niweidiol a chyswllt â Gweithredu dros Blant, sydd hefyd yn darparu asesiadau ac ymyriadau arbenigol.
- Mae yna ymarferydd gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), sy'n darparu gwasanaeth ymgynghori, asesu ac ymyrraeth arbenigol i blant. Mae rheolwr achos y GCI yn sgrinio pob plentyn am anghenion iechyd meddwl a bydd yn ymgynghori ag ymarferydd CAMHS os oes angen.
- O ganlyniad i adolygiad iechyd y GCI, mae'r GCI a CAMHS wedi datblygu swydd newydd a fydd yn cefnogi iechyd corfforol, iechyd emosiynol a lles plant.
- 'Sorted Sir y Fflint' yw'r tîm camddefnyddio sylweddau ar gyfer plant, sydd hefyd yn cael ei reoli gan uwch reolwr y GCI. Maent yn darparu gwasanaethau i leihau'r risg o niwed sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol ac yn darparu gwaith atal mewn ysgolion a'r gymuned. Maent yn darparu gwaith wedi'i dargedu ar gyfer plant sydd mewn mwy o berygl o gamddefnyddio sylweddau, a gwasanaeth therapiwtig ar gyfer y rheini y mae eu defnydd o sylweddau'n cael effaith negyddol ar eu gallu i weithredu o ddydd i ddydd ac ar eu hiechyd meddwl. Mae Sorted Sir y Fflint a'r GCI yn gweithio mewn ffordd gydlynol, ac mae cyfathrebu effeithiol rhwng y gwasanaethau.
- Mae gan y GCI swyddog heddlu profiadol ar secondiad sy'n sicrhau bod swyddogion yr heddlu'n deall gwaith y GCI a'r dull gweithredu plentyn yn gyntaf. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu bob dydd; mae swyddog yr heddlu yn mynychu cyfarfodydd strategaeth risg y GCI a bydd yn cynnal ymweliadau ar y cyd â rheolwyr achos os oes angen. Mae'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd ac yn cwblhau sesiynau cyfiawnder adferol ar gyfer plant sydd wedi troseddu yn erbyn swyddogion heddlu neu staff.
- Mae adborth gan y llys yn dangos bod staff y GCI yn wybodus am y plant sy'n ymddangos yn y llys. Mae'r adroddiadau'n gynhwysfawr ac yn hawdd eu deall, gydag argymhellion clir sy'n dilyn o'r wybodaeth a ddarparwyd. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y gwasanaeth a'r llys. Llenwir ffurflen adborth ar ddiwedd sesiynau'r llys.

**Meysydd i'w gwella:**

- Mae'r ddarpariaeth gofal iechyd yn gyfyngedig, yn enwedig ar gyfer iechyd a lles emosiynol plant a'u hanghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.
- Mae'r bartneriaeth yn cydnabod nad oes darpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu benodol ar gyfer plant y GCI. Mae'n deall y rhwystrau rhag cael darpariaeth effeithiol. Mae angen i ffocws strategol ar y bwlch hwn barhau i

sicrhau bod darpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu briodol ar gael ac yn hygyrch i blant y GCI ac yn diwallu eu hanghenion.

- Ni chafwyd unrhyw swyddog prawf ar secondiad i'r GCI ers nifer o flynyddoedd. Mae'r bartneriaeth yn deall bod hyn oherwydd materion recriwtio sy'n benodol i ranbarth Gogledd Cymru. Mae'r GCI wedi rhoi mesurau amrywiol ar waith, gan gynnwys cael cyllid ar gyfer swydd sy'n delio â phontio i'r gwasanaeth prawf. Fodd bynnag, adeg yr arolygiad, roedd y swydd statudol hon yn wag ac nid oedd gan y GCI sgiliau a phrofiad swyddog prawf ar secondiad.
- Er bod swyddogion cymorth addysg ar gael i gydlynu gwasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, nid ydynt yn gwneud gwaith uniongyrchol gyda phlant. Mae hyn yn effeithio ar allu rheolwyr achos y GCI, sy'n cael eu tynnu i gyfarfodydd addysg i eirioli dros ddarpariaeth addysgol unigol i blant.

## 1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau

| | |
|---|---|
| Mae gwybodaeth brydlon a pherthnasol ar gael, a chyfleusterau priodol yn eu lle i gefnogi dull gweithredu ymatebol, personol o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn. | Da |

**Cryfderau:**

- Rhoddir sylw i amrywiaeth mewn polisïau sy'n cael eu diweddaru'n flynyddol ac sy'n cael eu deall yn dda gan staff. Caiff unrhyw adolygiadau eu cyfathrebu drwy e-bost ac mewn trafodaethau mewn cyfarfodydd tîm.
- Mae'r GCI yn datblygu ymarfer sy'n ystyriol o drawma drwy ei bartneriaeth â Iechyd Cyhoeddus Cymru a thrwy weithredu pecyn cymorth TrACE. Mae hefyd yn datblygu arferion sy'n ystyriol o drawma yn ei bolisïau a'i weithdrefnau. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r defnydd o iaith mewn adroddiadau.
- Mae protocolau rhannu gwybodaeth ar waith ac yn cael eu deall ar draws y bartneriaeth.
- Mae proses uwchgyfeirio ar gyfer pob partner, i'w helpu i herio ei gilydd. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwyr i fynegi pryderon.
- Mae'r staff yn hyblyg o ran sut maen nhw'n gweld plant. Gan fod y gwasanaeth yn gwasanaethu ardal ddaearyddol fawr, mae'r staff yn ceisio defnyddio adeiladau sy'n hygyrch, yn ddiogel ac yn addas i blant a theuluoedd. Mae'r staff hefyd yn gweld plant mewn lleoliadau o amgylch yr ardal, gan gynnwys canolfannau ieuenctid, ysgolion a thrwy ymweliadau cartref.
- Cynhyrchir data perfformiad ar gyfer y tîm rheoli. Mae hyn yn caniatáu i'r tîm nodi a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â data a chofnodi.
- Mae gan staff y GCI fynediad at systemau plant y gwasanaethau cymdeithasol. Mae gan rai partneriaid eu mynediad eu hunain at system rheoli achosion y GCI.
- Mae adroddiadau Arolygiaeth Prawf EF yn cael eu trafod a'u hadolygu yn erbyn arferion yn Sir y Fflint. Mae hyn yn cefnogi'r GCI i ddatblygu dysgu ac ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau.
- Mae adolygiadau dysgu hanfodol yn cael eu cwblhau er mwyn i'r GCI a'r bartneriaeth ehangach allu rhannu'r dysgu allweddol a rhoi camau gweithredu ar waith.
- Mae'r GCI wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar ymchwil ac ar dystiolaeth ac sy'n gweithio'n agos gyda gwahanol sefydliadau prifysgol.
- Mae'r GCI wedi gweithredu'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad gan gymheiriaid a gomisiynwyd gan y bwrdd ac mae'n monitro cynnydd yn rheolaidd.

**Meysydd i'w gwella:**

- Mae gan y GCI fframwaith sicrhau ansawdd ar waith. Fodd bynnag, er y gwelsom rywfaint o ymarfer rhagorol mewn rhai achosion, nid oedd y fframwaith yn gyson yn ysgogi ansawdd yr ymarfer yn yr holl achosion a arolygwyd.
- Er bod swyddfa bresennol y GCI mewn cyflwr gwael ac nad yw'n addas i blant, mae cynlluniau ar y gweill i symud y gwasanaeth i adeilad mwy priodol.
- Er bod y GCI wedi ceisio casglu mwy o adborth gan blant drwy wahanol ddulliau, nid yw bob amser wedi gwneud hyn yn gyson. Nid yw rhai dulliau a phrosesau adborth wedi'u gwreiddio'n llawn eto, ac mae angen i'r GCI sicrhau bod cyfranogiad ac adborth yn dylanwadu ar ddarparu gwasanaethau.
- Mae gan staff amrywiaeth o ymyriadau i'w defnyddio gyda phlant ond byddai mwy o fynediad at dechnoleg yn helpu i gadw diddordeb plant.

## Cynnwys plant a'u rheini neu'u gofalwyr

Mae gan y GCI strategaeth gyfranogi sy'n nodi'r gwahanol ddulliau y mae'n eu defnyddio i gael adborth gan blant, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr i siapio'r gwaith o ddarparu a chyflawni gwasanaethau. Fel rhan o'r broses asesu a chynllunio, mae staff y GCI yn gofyn i blant am eu dyheadau ac yn gofyn am eu barn am agweddau ar eu bywyd a pha mor gadarnhaol yw'r meysydd hyn iddynt. Ar ddiwedd yr ymyriad, mae'r staff yn ailedrych ar y rhain i weld a oes cynnydd wedi'i wneud.

Fel rhan o ymrwymiad y gwasanaeth i ddatblygu dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma, cynhaliodd uwch reolwr y GCI gyfweliadau â phlant a rhieni i glywed am eu profiadau gyda'r gwasanaeth. Mae'r bwrdd rheoli hefyd wedi canolbwyntio ar lais plant drwy ddefnyddio gwybodaeth am astudiaethau achos fel rhan o bob cyfarfod. Er bod y GCI wedi ceisio cael mwy o adborth gan blant, nid yw bob amser wedi gwneud hyn yn gyson.

Cysylltodd y GCI â'r plant a oedd ag achosion agored adeg yr arolygiad ar ein rhan er mwyn cael caniatâd ganddynt i gymryd rhan mewn arolwg testun. Fe wnaethom gyflwyno'r arolwg yn annibynnol i'r pedwar o blant a roddodd ganiatâd, ac atebodd un plentyn.

Pan ofynnwyd iddynt beth oedd eu barn am y gwasanaeth yr oeddent wedi'i gael gan y GCI, ymatebodd un plentyn, gan roi sgôr o 10 allan o 10.

Siaradodd yr arolygwyr â thri o blant hefyd. Roedd pob un yn teimlo bod gan eu gweithwyr yn y GCI y sgiliau iawn i wneud y gwaith. Roeddent hefyd yn teimlo eu bod wedi gallu cael gafael ar y gwasanaethau a'r gefnogaeth iawn i'w helpu i gadw allan o drwbl.

Dywedodd un plentyn, wrth siarad am ei reolwr achos:

> *"Ers i mi weld y gweithiwr, dydw i ddim wedi bod mewn trwbl yn yr ysgol nac yn y gymuned. Maen nhw'n llawn dealltwriaeth ac yn dda am wrando."*

Dywedodd plentyn arall:

> *"Bydd fy ngweithiwr yn siarad â mi am yr ysgol a mynd i drwbl a sut gall fy ffrindiau ddylanwadu arna i."*

Dywedodd un plentyn:

> *"Maen nhw'n bobl neis, yn hawdd siarad â nhw. Maen nhw'n gwybod nad ydw i'n hoffi eistedd o gwmpas, felly bydden nhw'n dod gyda mi pan fyddai'n rhaid i mi fynd i'r llys."*

## Amrywiaeth

- Mae gan y GCI gynllun gweithredu anghymesuredd ar waith i fonitro cynrychiolaeth grwpiau gwahanol yn y garfan ac i ymateb i hyn. Roedd hyn wedi arwain at y gwasanaeth yn dadansoddi sut mae'n gweithio gyda gwahanol grwpiau o blant, a chynyddu hyfforddiant i staff a rheolwyr.
- Yn ôl Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2021, roedd y Gymraeg yn cael ei siarad gan 23.9 y cant o'r boblogaeth yn Sir y Fflint o'i gymharu â 29.5 y cant ledled Cymru. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar y data o gyfrifiad cenedlaethol 2011, a adroddodd fod gan 13.2 y cant o boblogaeth y sir rywfaint o sgiliau Cymraeg.
- Mae gan y sir bum ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Nid oes ysgolion dwyieithog nac ysgolion dwy ffrwd yn Sir y Fflint. Ar hyn o bryd, mae 6.23 y cant o blant Sir y Fflint yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae targedau uchelgeisiol yng nghynllun strategol Cymraeg mewn Addysg y cyngor i gynyddu'r nifer hwn dros y 10 mlynedd nesaf.
- Yn ddemograffig, mae poblogaeth Sir y Fflint yn wyn ar y cyfan, ac mae'r boblogaeth droseddu, dros y blynyddoedd, wedi adlewyrchu hyn. Ym mis Rhagfyr 2023, roedd un plentyn o ethnigrwydd Du yn ymwneud â'r GCI, a oedd yn cyfrif am tua phedwar y cant o'r boblogaeth droseddu. Roedd hyn yn unol â chyfran y plant 10 i 17 oed o ethnigrwydd Du yn Sir y Fflint.
- Mae'r GCI yn edrych ar anghymesuredd o ran ethnigrwydd. Mae hefyd yn monitro grwpiau ehangach, fel merched, plant sy'n derbyn gofal, plant o gefndiroedd Dwyrain Ewrop a phlant o deuluoedd Roma, Sipsiwn a Theithwyr.
- Mae data'r GCI yn dangos bod carfan y GCI, fel arfer, yn tua 20 y cant yn fenywaidd ac 80 y cant yn wrywaidd. Fodd bynnag, rhwng canol a diwedd 2023 roedd shifft i 27 y cant yn fenywaidd. Mae hyn yn gyfran uwch o'i gymharu â thueddiadau blaenorol. Mae'r gwasanaeth wedi dechrau archwilio'r data i chwilio am unrhyw batrymau yn y garfan. Mae rheolwr y gwasanaeth yn ymgynghori ag ymchwilwyr ym Mhrifysgol John Moores Lerpwl i gael eu barn a'u safbwyntiau academaidd.
- Mae'r GCI yn monitro cyfran y plant sy'n derbyn gofal, sy'n cynrychioli tua 13 y cant o gyfanswm y garfan. Dangosodd dadansoddiad dyfnach o'r data hwn fod trais yn bryder yn y garfan hon, a daeth yr holl blant yn droseddwyr pan oeddent mewn gofal. Yn y gorffennol, mae'r GCI wedi rhoi cynnig ar raglen beilot cyfiawnder adferol i hyrwyddo dargyfeirio. Fodd bynnag, yr oedd yn anodd gwneud cynnydd gyda hyn, oherwydd diffyg adnoddau. Mae'r GCI yn llunio ei ymateb i'r protocol cenedlaethol ar leihau troseddoli plant sy'n derbyn gofal.
- O'r 44 o blant a oedd ag ymyriadau agored adeg yr arolygiad, roedd gan 63 y cant broblemau camddefnyddio sylweddau, roedd gan 79 y cant bryderon emosiynol, iechyd meddwl a lles, ac roedd gan 67 y cant anabledd dysgu neu anhawster dysgu, neu roedd ganddynt gefnogaeth anghenion dysgu ychwanegol. Roedd naw y cant o'r plant yn derbyn gofal ac yn byw yn ardal y GCI.
- Gwelodd yr arolygiad enghraifft wych o reolwr achos yn gweithio gyda phlentyn ar ei iaith a'i ymddygiad hiliol. Roeddent yn canolbwyntio ar

ddigwyddiadau hiliol cyfarwydd yn y newyddion, sut mae iaith yn effeithio ar ymddygiad a'r effaith gadarnhaol y mae pobl o wahanol ddiwylliannau yn ei chael ar gymdeithas a chymunedau lleol. Cafodd y gwaith ei gyflwyno mewn ffordd sensitif, ystyriol a medrus, a chafodd effaith gadarnhaol ar farn, ymddygiad ac ymdeimlad y plentyn ohono'i hun.

- Mae gan y GCI gynllun gweithredu ar anghymesuredd ac mae yna grŵp strategol sy'n adolygu grwpiau sy'n cael eu gorgynrychioli. Fodd bynnag, mae angen iddo gysylltu hyn â'i waith ar lefel weithredol i helpu i sbarduno ymarfer wrth asesu a darparu ymyriadau sy'n adlewyrchu nodweddion gwarchodedig plant. Byddai hyn yn arbennig o berthnasol i ddatblygu gweithgareddau gwneud iawn i ferched.
- Yn yr arolwg staff, dywedodd bron pob aelod o staff a oedd ag anghenion amrywiaeth fod y rhain wedi'u bodloni naill ai'n 'dda iawn' neu'n 'eithaf da'.

# Parth dau: Datrysiadau yn y llys

Edrychwyd yn fanwl ar bum dedfryd gymunedol ac un ddedfryd o garchar a reolir gan y GCI.

## 2.1. Asesiad

| | |
|---|---|
| Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr. | Da |

Mae ein sgôr[2] ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | **% 'Ydy'** |
|---|---|
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn? | 100% |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel? | 100% |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | **67%** |

Canfu'r arolygiad fod y gweithgarwch asesu yn gyson gryf ar draws ymataliad plant a'u diogelwch a'u lles. Fodd bynnag, er bod gan reolwyr achos fynediad at wybodaeth gan asiantaethau eraill, nid oeddent bob amser yn ei defnyddio wrth ddadansoddi risg plant o achosi niwed i eraill. Wrth asesu ymataliad, dangosodd rheolwyr achos ymwybyddiaeth o'r trawma yr oedd plant wedi'i brofi a'i effaith ar eu hymddygiad a'u hymgysylltiad. Cwblhaodd rheolwyr achos ddadansoddiad priodol o agweddau plant tuag at eu troseddu, neu resymau drosto. Roeddent yn canolbwyntio ar gryfderau a chymhelliant plant i newid ac yn cynnwys plant a'u rhieni neu ofalwyr yn yr asesiad. Roeddent yn dadansoddi anghenion amrywiaeth plant ac, ym mhob achos, roedd y swyddog cyfiawnder adferol a dioddefwyr yn mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod rheolwyr achos yn cynnwys anghenion a dymuniadau'r dioddefwr yn eu hasesiadau.

Nododd rheolwyr achos risgiau posibl i ddiogelwch a lles plant yn briodol. Roeddent yn defnyddio gwybodaeth gan asiantaethau eraill yn gyson i gefnogi diogelwch plant. Roeddent yn cydweithio'n dda â'r gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer plant a'r gweithwyr addysg arbenigol. Roedd yna gofnod ysgrifenedig clir o les plant a sut i'w cadw'n ddiogel.

Wrth asesu risg plant o achosi niwed i eraill, nid oedd rheolwyr achos bob amser yn cael gafael ar wybodaeth gan asiantaethau eraill, gan gynnwys gwybodaeth am ymddygiad ac euogfarnau yn y gorffennol, a'i defnyddio'n gyson i ddadansoddi lefel y risg o niwed a berir gan y plentyn. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion,

[2] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, ac a nodir mewn print trwm yn y tabl. Mae esboniad manylach ar gael ar ein gwefan.

roedd rheolwyr achos yn ystyried yn gyson pwy oedd yn wynebu risg, a natur y risg honno.

## 2.2. Cynllunio

| | |
|---|---|
| Mae'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn holistaidd ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr. | Angen gwella |

Mae ein sgôr[3] ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn? | 67% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | 67% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | **50%** |

Rhoddodd y gwasanaeth flaenoriaeth i ddyrannu achosion i reolwyr achos a oedd eisoes wedi gweithio gyda'r plentyn a'i deulu. Roedd tystiolaeth bod cynlluniau wedi cael eu cydgynhyrchu gyda phlant. Roedd cynllunio ar gyfer ymyriadau'r plentyn yn dangos bod y rheolwr achos yn adnabod y plentyn yn dda, yn ystyried eu hamgylchiadau personol, ac yn deall eu cymhellion a'u cryfderau. Fodd bynnag, nododd yr arolygwyr nad oedd pryderon emosiynol a lles plant, a'u hanghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, yn cael eu cynnwys yn gyson yn y gwaith cynllunio.

Mewn gormod o achosion, nid oedd ymarferwyr yn cynnwys anghenion amrywiaeth plant wrth gynllunio gwasanaethau ac ymyriadau. Nid oedd rheolwyr achos bob amser yn ystyried barn rhieni a gofalwyr fel rhan o'r broses gynllunio. Rhannodd gweithwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth wybodaeth am allu plant i gymryd rhan yn y ddarpariaeth. Fodd bynnag, roedd rheolwyr achos yn gyfrifol am helpu plant i gael mynediad at y gwasanaethau ac, os oedd angen, eiriol ar eu rhan i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Roedd gan Sorted Sir y Fflint brosesau ar gyfer gweithio gyda phlant ag anghenion sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau, ac roedd yn ymgysylltu'n dda â phlant. Ystyriwyd dymuniadau'r dioddefwyr yn gyson, ac roedd hynny'n darparu cyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol.

Mae cynlluniau i gadw plant yn ddiogel yn cynnwys asiantaethau eraill. Cynhaliwyd cyfarfodydd aml-asiantaeth yn rheolaidd i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a bod pob asiantaeth yn ymwybodol o amgylchiadau'r plentyn. Roedd rhannu

---

[3] **Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl.** Mae esboniad manylach ar gael ar ein gwefan.

gwybodaeth yn rheolaidd a diweddariadau gan yr heddlu yn galluogi ymarferwyr i ystyried materion diogelu ehangach y tu allan i'r cartref.

Roedd cynlluniau'n hyrwyddo diogelwch pobl eraill ac yn cynnwys asiantaethau eraill mewn dim ond hanner yr achosion. Nid oedd cynlluniau wrth gefn i fynd i'r afael â phryderon cynyddol am ddiogelwch a lles plentyn a diogelwch pobl eraill yn ddigon manwl nac yn berthnasol i amgylchiadau penodol y plentyn mewn digon o achosion.

## 2.3. Gweithredu a chyflawni

| | |
|---|---|
| Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu. | Da |

Mae ein sgôr[4] ar gyfer gweithredu a chyflawni yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | **% 'Ydy'** |
|---|---|
| A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol? | **67%** |
| A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol? | **67%** |
| A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol? | **67%** |

Roedd rheolwyr achos wedi meithrin perthynas gref gyda'r plant a'u teuluoedd, ac roedd hyn yn amlwg yn ymgysylltiad y plant. Roedd pob achos yn dangos y flaenoriaeth uchel a roddodd rheolwyr achos i ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol gyda'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr. Roedd tystiolaeth bod staff yn defnyddio ymyriadau sy'n seiliedig ar drawma a oedd yn dangos eu bod yn deall anghenion y plentyn. Roedd yr ymyriadau'n arloesol ac wedi'u teilwra i helpu i gymell plant. Roedd rheolwyr achos yn cymryd rhan mewn trafodaethau aml-asiantaeth i sicrhau bod darpariaeth ar gael i'r plentyn pan ddaeth eu hymwneud â'r GCI i ben. Roedd gweithwyr sesiynol yn ymwneud â darparu sesiynau gwneud iawn. Roedd enghreifftiau da ohonynt yn defnyddio'r cyfle i fentora'r plant yr oeddent yn gweithio gyda hwy. Roedd tystiolaeth bod gweithgareddau gwneud iawn yn cael eu defnyddio i helpu'r plentyn i feithrin perthnasoedd a hwyluso integreiddio cymunedol.

Ym mhob achos, nododd y rheolwr achos ymyriadau i reoli diogelwch a lles y plentyn. Er nad oedd cyfraniad asiantaethau eraill at helpu i gadw plant yn ddiogel yn amlwg ym mhob achos, roedd rhai enghreifftiau o waith ar y cyd gyda staff arbenigol, gan gynnwys y gweithiwr CAMHS, a gydag asiantaethau partner, gan gynnwys gwasanaethau defnyddio sylweddau, a gofal cymdeithasol i blant. Er bod rheolwyr achos yn teimlo'n hyderus wrth asesu pryderon emosiynol a lles plant, a'u hanghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, roeddent yn ymwybodol mai prin oedd y ddarpariaeth i ddiwallu anghenion plant. Mae'r GCI wedi gweithio gyda phartneriaid iechyd i gau'r

[4] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Mae esboniad manylach ar gael ar ein gwefan.

bylchau hyn. Fodd bynnag, roedd y diffyg darpariaeth benodol a nodwyd ar gyfer plant y GCI yn golygu nad oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu'n llawn. Defnyddiodd rheolwyr achos weithdrefnau uwchgyfeirio pan oeddent yn teimlo nad oedd y plentyn yn cael y ddarpariaeth yr oedd ei hangen arnynt, i ddiwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, nododd yr arolygwyr, pe bai'r gwasanaethau hyn wedi bod ar gael i blant, y byddent wedi gwella ansawdd yr ymyriadau a ddarparwyd.

Roedd angen cryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau ac ymyriadau a oedd yn ystyried risg plentyn o beri niwed i eraill. Nid oedd cynnwys asiantaethau eraill yn y gwaith o reoli'r risg o niwed wedi'i gydlynu'n ddigon da ym mhob achos, yn enwedig yr achosion risg uwch. Fodd bynnag, roedd y rheolwr achos yn ystyried diogelu dioddefwyr gwirioneddol a phosibl ym mhob achos bron, ac yn cynnwys gwaith penodol gyda theuluoedd y dioddefwr gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Roedd yna ddull gweithredu amlasiantaeth ar draws asiantaethau i fonitro risgiau, ac roedd y cyfathrebu a'r rhannu gwybodaeth rhwng staff heddlu'r GCI a rheolwyr achos yn amserol.

## 2.4. Adolygu

| | |
|---|---|
| Mae adolygu cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr. | Da |

Mae ein sgôr[5] ar gyfer adolygu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn? | **67%** |
| A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | 83% |
| A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | **67%** |

Cafodd adolygiadau eu cwblhau ar adegau allweddol yn y gorchymyn, ac ym mhob achos bron roedd yna adolygiad parhaus o ffactorau ymatal wrth i'r gorchymyn fynd rhagddo. Nid oedd pob achos yn dangos bod rheolwyr achos yn parhau i adeiladu ar gryfderau plant, ond roeddent yn ystyried newidiadau yn amgylchiadau personol plant. Roedd yr adolygiad wedi ystyried cymhelliant y plentyn yn briodol wrth i'r gorchymyn fynd rhagddo, ac roedd y plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn dal i fod yn rhan o'r broses adolygu. Er bod ffocws ymyriadau wedi newid os oedd angen, ni chafodd cynllun y plentyn ei addasu, er enghraifft i gynnwys barn plant, ym mhob achos.

Roedd y broses o adolygu diogelwch a lles plant yn nodi'r newidiadau yn amgylchiadau plant yn bennaf. Roedd rheolwyr achos ac asiantaethau partner yn cymryd rhan mewn trafodaethau a chyfarfodydd aml-asiantaeth i sicrhau bod darpariaeth ar gael i blant pan ddaeth eu hymwneud â'r GCI i ben. Roedd rheolwyr achos yn ymateb i newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn. Defnyddiwyd y cyfarfodydd strategaeth risg aml-asiantaeth a chyfarfodydd statudol gofal cymdeithasol plant i'w helpu i reoli unrhyw bryderon neu gynnydd yn y risg i ddiogelwch a lles plant.

Wrth adolygu diogelwch pobl eraill, roedd rhywfaint o oedi cyn i reolwyr achos nodi risgiau newydd a oedd yn dod i'r amlwg. Nid oedd adolygu effaith bosibl y rhain ar lefel y risg a berir gan y plentyn bob amser yn amserol. Newidiodd rheolwyr achos ffocws ymyriadau os oedd angen i reoli risg, ac mewn un achos roedd adolygiad MAPPA wedi cael ei arwain yn briodol gan y Gwasanaeth Prawf oherwydd oedran y plentyn. Fodd bynnag, nid oedd cynllun parhaus y plentyn yn cael ei addasu'n gyson yn unol â'r broses adolygu.

[5] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Mae esboniad manylach ar gael ar ein gwefan.

## Parth tri: Datrysiadau y tu allan i'r llys

Fe wnaethom archwilio wyth achos a oedd yng ngofal y GCI a oedd wedi cael eu datrys y tu allan i'r llys. Roedd y rhain yn cynnwys dau rybuddiad amodol i ieuenctid, dau rybuddiad ieuenctid a phedwar datrysiad cymunedol. Fe wnaethom gyfweld y rheolwyr achos mewn saith achos.

### 3.1. Asesiad

| | |
|---|---|
| Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[6] ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | **% 'Ydy'** |
|---|---|
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn? | 100% |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel? | **88%** |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | **88%** |

Er mwyn helpu i nodi ffactorau ymatal plant, roedd rheolwyr achos wedi defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gan asiantaethau partner, gan gynnwys addysg, iechyd a'r heddlu. Roeddent yn cynnig dadansoddiad priodol o agweddau plant tuag at eu troseddu, neu resymau drosto, ac yn canolbwyntio ar gryfderau plant a'u cymhelliant i newid. Roedd rheolwyr achos yn cynnwys plant, a'u rhieni neu ofalwyr mewn gweithgaredd asesu. Ym mhob achos bron, roeddent yn ystyried anghenion a dymuniadau dioddefwyr. Roedd y gweithgaredd asesu yn ystyried amrywiaeth y plentyn ac yn nodi unrhyw rwystrau a oedd yn atal plant rhag defnyddio gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion. Nododd yr arolygwyr fod rheolwyr achos yn drylwyr o ran cofnodi barn plant yn eu hasesiadau.

Ym mhob un bron o'r achosion a arolygwyd, cafodd y risgiau posibl i ddiogelwch a lles plant eu dadansoddi'n ddigonol. Roeddent yn defnyddio gwybodaeth gan asiantaethau eraill i hysbysu eu hasesiadau, gan gynnwys gan y gwasanaethau cymdeithasol i blant, ac yn ystyried eu hanghenion diogelu cyd-destunol. Roedd tystiolaeth yn yr achosion datrysiadau y tu allan i'r llys bod rheolwyr achos wedi ystyried profiad y plentyn o drawma a'i effaith ar ei ymgysylltiad. Roedd yna gofnod ysgrifenedig clir o les plant a sut i'w cadw'n ddiogel.

[6] **Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl.** Mae esboniad manylach ar gael ar ein gwefan.

Ym mhob achos bron, roedd yna gofnod ysgrifenedig clir o’r asesiad i gadw pobl eraill yn ddiogel. Roedd rheolwyr achos yn nodi ac yn dadansoddi’r risgiau i eraill, ac yn defnyddio gwybodaeth gan asiantaethau eraill i hysbysu’r asesiad. Roedd ymarferwyr yn cydnabod risgiau ehangach i bobl eraill ac yn dadansoddi ymddygiad niweidiol posibl plant yn y dyfodol yn briodol.

## 3.2. Cynllunio

| | |
|---|---|
| Mae’r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae’n cynnwys yn weithredol y plentyn a’i rieni neu ofalwyr. | Angen gwella |

Mae ein sgôr[7] ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | **% 'Ydy'** |
|---|---|
| A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio ar gefnogi ymataliad y plentyn? | **63%** |
| A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar gadw’r plentyn yn ddiogel? | **63%** |
| A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | **63%** |

Nid yw’r Biwro yn Sir y Fflint yn banel aml-asiantaeth. Mae hyn yn golygu nad yw asiantaethau eraill yn helpu i lunio’r cynlluniau ar y panel ar gyfer plant sy’n destun datrysiadau y tu allan i’r llys, a gallai hyn fod wedi cyfrannu at yr angen i gynllunio fod yn faes ymarfer y mae angen ei ddatblygu. Mae hyn yn cael ei waethygu gan y ffaith nad yw’r rheolwr achos yn mynychu’r panel ac felly nid yw’n cael cyfle i gyfrannu’n uniongyrchol at gynlluniau’r panel ar gyfer y plentyn.

Roedd y cynllunio’n mynd i’r afael â ffactorau ymatal y plentyn, er bod rheolwyr achos yn ystyried anghenion amrywiaeth plant mewn dim ond hanner yr achosion. Roeddent yn cyd-gynhyrchu cynlluniau gyda phlant, yn cynnwys eu rhieni neu ofalwyr, ac yn sicrhau bod cynlluniau’n gymesur â’r math o ddatrysiad. Roedd y rhan fwyaf o’r cynlluniau’n adlewyrchu dymuniadau ac anghenion y dioddefwr. Gan fod rhai o’r ymyriadau’n cael eu darparu o fewn cyfnod byr, roedd rheolwyr achos a staff asiantaethau partner yn canolbwyntio’n effeithiol ar fynediad plant at wasanaethau prif ffrwd a chyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol ar ôl i’r datrysiad ddod i ben.

Drwy gynllunio ar gyfer diogelwch a lles plant, bu rheolwyr achos yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau eraill, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer plant a gweithwyr defnyddio sylweddau. Roedd gweithio mewn partneriaeth yn

[7] **Mae’r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o’r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl.** Mae esboniad manylach ar gael ar ein gwefan.

amlwg yn y cyfarfodydd aml-asiantaeth ar gyfer plant sydd ar goll, yn cael eu hecsbloetio a'u masnachu, yn ogystal â thrafodaethau am risgiau plant mewn fforymau eraill ar draws y bartneriaeth. Fodd bynnag, prin oedd yr ymyriadau cynllunio ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu ac iechyd cyffredinol.

Ystyriodd rheolwyr achos sut i gadw pobl eraill yn ddiogel yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, nid oeddent bob amser yn cynnwys gweithwyr arbenigol ac asiantaethau eraill nac yn mynd i'r afael â diogelwch dioddefwyr penodol a dioddefwyr posibl er mwyn helpu i hysbysu'r broses gynllunio. Gellid bod wedi gwella'r gwaith cynllunio wrth gefn i fynd i'r afael â phryderon cynyddol am ddiogelwch pobl eraill drwy sicrhau nad oedd cynlluniau'n enerig ond yn ymateb i sefyllfaoedd plant unigol.

## 3.3. Gweithredu a chyflawni

| | |
|---|---|
| Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu. | Angen gwella |

Mae ein sgôr[8] ar gyfer gweithredu a chyflawni yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | **% 'Ydy'** |
|---|---|
| A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol? | 75% |
| A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol? | 75% |
| A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol? | **63%** |

Gallai rheolwyr achos gael mynediad at yr holl wasanaethau ac ymyriadau sydd ar gael i blant ar orchmynion llys ar gyfer y rheini sy'n destun datrysiad y tu allan i'r llys. Roedd yr ymyriadau a ddarparwyd yn dangos bod y rheolwr achos wedi meithrin perthynas gref â'r plentyn, er nad oeddent wedi ystyried anghenion amrywiaeth y plant ym mhob achos.

Gweithiodd rheolwyr achos yn galed i sefydlu perthynas waith effeithiol gyda phlant a'u rhieni neu ofalwyr. Roedd enghreifftiau o reolwyr achos yn bod yn greadigol gyda'r ymyriadau ac yn defnyddio adnoddau gweledol a chinesthetig i ymgysylltu â phlant a diwallu eu hanghenion. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ymarferwyr wedi

[8] **Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl.** Mae esboniad manylach ar gael ar ein gwefan.

ystyried sut y gellid cysylltu plant â gwasanaethau prif ffrwd ar ôl i'w hymyriadau ddod i ben.

Roedd rheolwyr achos yn ymwybodol o'r bylchau mewn gwasanaethau partneriaeth i blant ac roeddent yn eiriol yn gadarn ar eu rhan i sicrhau bod asiantaethau partner yn darparu darpariaeth briodol, yn enwedig ar gyfer anghenion iechyd ac addysg plant. Roedd rheolwyr achos yn cysylltu'n dda â'r gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer plant. Roeddent yn defnyddio cyfarfodydd aml-asiantaeth i rannu gwybodaeth fel bod asiantaethau'n ymwybodol o amgylchiadau plant. Ym mron pob un o'r achosion a arolygwyd, roedd darparu gwasanaethau ac ymyriadau'n cefnogi diogelwch plant yn effeithiol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ymyriadau gyda phlant i gefnogi diogelwch pobl eraill yn rheoli ac yn lleihau'r risg o niwed. Roedd enghraifft wych o ymarferydd yn gweithio gyda phlentyn ar ddigwyddiad trosedd casineb ac yn ymgorffori profiadau bywyd a threftadaeth y plentyn ei hun. Fodd bynnag, roedd angen i reolwyr achos roi mwy o ystyriaeth i'r ffordd orau o amddiffyn dioddefwyr posibl a gwirioneddol wrth ddarparu ymyriadau. Yn gyffredinol, roedd yr ymyriadau a ddarparwyd yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn y rhan fwyaf o'r achosion a arolygwyd.

## 3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys

| | |
|---|---|
| Mae gwasanaeth datrysiadau y tu allan i'r llys o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n hyrwyddo amrywiaeth ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy. | Angen gwella |

Rydym hefyd wedi edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. Roedd ein prif ganfyddiadau fel a ganlyn:

**Cryfderau:**

- Mae gan y GCI ddarpariaeth atal, sy'n cynnwys y rhaglen Turnaround. Mae paneli aml-asiantaeth yn canolbwyntio ar gymorth cynnar i blant a theuluoedd.
- Roedd nifer y plant a oedd yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer cymorth atal a dargyfeirio wedi cynyddu. Mae hyn yn dangos bod gwasanaethau'n ymyrryd â phlant yn gynharach, er mwyn atal troseddu a lleihau nifer y newydd-ddyfodiaid.
- Y Biwro yw'r panel penderfynu ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys. Mae yna bolisi Biwro, a adolygwyd yn ddiweddar i gynnwys canllawiau wedi'u diweddaru.
- Ar ôl derbyn yr atgyfeiriad y tu allan i'r llys, caiff yr achos ei ddyrannu i reolwr achos, i gwblhau asesiad. Mae dioddefwyr a gweithwyr arbenigol hefyd yn cael gwybod am y dyraniadau, er mwyn iddynt allu gwirio eu gwybodaeth i'w hychwanegu at yr asesiad.
- Roedd y staff yn deall y broses ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys ac yn teimlo bod eu hasesiadau'n dylanwadu ar y canlyniad i'r plentyn.
- Roedd tystiolaeth o wneud penderfyniadau ar y cyd rhwng y GCI a'r heddlu yn y panel, a chofnodwyd y rhesymeg dros ganlyniadau'r datrysiad yn glir. Os oedd unrhyw anghytuno yn y panel, roedd proses uwchgyfeirio glir ar waith.
- Mae rheolwyr achos yn llenwi taenlen bob pythefnos er mwyn i'r Biwro allu gwirio cynnydd y plentyn.
- Mae'r GCI yn monitro aildroseddu plant sy'n destun datrysiadau y tu allan i'r llys ac yn adrodd ar hynny i'r bwrdd rheoli.
- Er bod panel craffu yng Ngogledd Cymru, teimlai'r gwasanaeth ei fod yn canolbwyntio gormod ar oedolion. Felly, maent wedi datblygu panel craffu lleol, sy'n cael ei gadeirio gan ynad ac yn cael ei fynychu gan uwch reolwr y GCI a chynrychiolydd o Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r panel hwn yn canolbwyntio'n llwyr ar blant Sir y Fflint ac yn adrodd i'r bwrdd rheoli.

**Meysydd i'w gwella:**

- Aelodau'r Biwro yw swyddog heddlu ar secondiad y GCI, uwch ymarferydd y GCI a'r gweithiwr cyfiawnder adferol, sy'n cynrychioli barn y dioddefwr. Nid yw'r Biwro yn un aml-asiantaeth ac nid yw'n cynnwys unrhyw un o'r

gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer plant, addysg, iechyd nac unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n berthnasol i'r plentyn. Er bod y rheolwr achos a gwblhaodd yr asesiad yn gwneud argymhelliad o ran canlyniad, nid yw'n mynychu'r Biwro, ac felly nid oes unrhyw un sydd wedi cwrdd â'r plentyn a'i deulu yn bresennol yn y panel i helpu i hysbysu penderfyniadau.

- Mae diffyg panel aml-asiantaeth ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys yn golygu bod yn rhaid i'r rheolwr achos gasglu llawer o wybodaeth gan wahanol asiantaethau sy'n effeithio ar faint o waith cyn y panel sydd ei angen. Mae hyn yn cael ei waethygu gan y ffaith nad yw'r rheolwr achos yn mynychu'r panel ac felly nid yw'n cael cyfle i gyfrannu ac ymateb i drafodaeth y panel ar y pryd. Er y gellir aildrefnu'r panel er mwyn i'r reolwr achos ymateb i benderfyniad cychwynnol y panel os yw'n gwyro oddi wrth yr argymhelliad, gall hyn arwain at oedi o ran darparu canlyniad i'r plentyn.
- Er bod ansawdd asesiadau'r Biwro yn gryf, roedd yr amser a gymerwyd i'w cwblhau wedi cynyddu llwyth gwaith rheolwyr achos.
- Mae'r heddlu wedi rhoi Canlyniad 22 ar waith yn ddiweddar; fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys plant sy'n rhoi cyfweliadau 'dim sylwad'. Mae angen i'r dull hwn sicrhau nad yw plant yn cael eu troseddoli'n ddiangen oherwydd bod yr opsiynau ar gyfer canlyniadau dargyfeiriol yn gyfyngedig.

## 4.1. Adsefydlu

| 4.1. Y polisi a'r ddarpariaeth adsefydlu | |
|---|---|
| Ceir gwasanaeth adsefydlu o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant sy'n gadael caethiwed. | Da |

Rydym wedi edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer gwaith adsefydlu, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. I ddangos y gwaith hwnnw, bu i ni arolygu dau achos a oedd yn cael eu rheoli gan y GCI a oedd wedi cael dedfryd o garchar. Roedd ein prif ganfyddiadau fel a ganlyn.

**Cryfderau:**

- Mae gan y GCI bolisi adsefydlu, a fydd yn cael ei adolygu i gynnwys canllawiau rheoli achosion diwygiedig y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.
- Mae gan y GCI a'r gwasanaethau cymdeithasol i blant gytundeb bod adolygiad aml-asiantaeth yn cael ei gynnal pan fydd plentyn yn cael ei remandio i'r ddalfa.
- Cyflwynwyd data ar gystodaeth ac adsefydlu yn y bwrdd rheoli. Nododd y bwrdd fod angen gwella'r gwaith o fonitro digwyddiadau diogelu a hyrwyddo eiriolaeth i blant yn y ddalfa. Arweiniodd hyn at y bwrdd yn uwchgyfeirio pryderon diogelu am blant sydd yn y ddalfa ar hyn o bryd.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd adsefydlu aml-asiantaeth ac roeddent yn amlwg yn yr achosion a arolygwyd. Roeddent yn pennu trefn y gwaith a fyddai'n cael ei wneud i fynd i'r afael ag anghenion y plentyn a rolau a chyfrifoldebau'r asiantaethau.
- Roedd rheolwyr achos y GCI yn mynychu cyfarfodydd adolygu ac yn ymweld yn rheolaidd â phlant yn y ddalfa wyneb yn wyneb, i gynnal a datblygu eu perthynas waith.
- Dywedodd staff fod cyfathrebu â'r ystâd ddiogel yn effeithiol. Dyrannwyd gweithiwr ailsefydlu i bob plentyn. Cafwyd sgyrsiau wythnosol rhwng y GCI a'r sefydliad.
- Roedd dod o hyd i lety addas yn her. Fodd bynnag, cafodd problemau gyda llety eu huwchgyfeirio'n gyflym er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion sy'n effeithio ar blant yn y ddalfa yn cael sylw cyn gynted â phosibl.
- Roedd rheolwyr achos yn ystyried rhyddhau ar drwydded dros dro i helpu plant i archwilio cyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Roedd enghreifftiau da o hyn yn cael ei ddefnyddio i helpu plant i ailintegreiddio yn eu cymuned.
- Mae'r staff yn cefnogi teuluoedd y mae eu plant yn y ddalfa ac yn defnyddio ffyrdd creadigol o gyfathrebu â nhw. Er enghraifft, sefydlwyd grŵp WhatsApp ar gyfer rhieni nad oeddent yn siarad â'i gilydd fel bod y ddau riant yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eu plentyn.

- Mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod ymarferwyr arbenigol yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â gwasanaethau addysg ac iechyd yn y ddalfa. Rheolwyr achos oedd y sianelau ar gyfer sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau yn y gymuned a'u cymheiriaid yn y ddalfa. Roedd rheolwyr achos y GCI yn gweithio'n agos gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn, gan gynnwys ymweliadau ar y cyd â'r sefydliadau diogel, a mynychu cyfarfodydd adolygu.

**Meysydd i'w gwella:**

- Cafodd penderfyniad polisi ynghylch defnyddio goruchwyliaeth a gwyliadwriaeth ddwys (ISS) effaith negyddol ar ansawdd un o'r achosion adsefydlu. Arweiniodd hyn at y plentyn yn cael trwydded gydag ISS, nad oedd yn briodol i lefel ei risg ac nad oedd yn mynd i'r afael â'i wendidau niferus. Ers hynny, mae'r GCI wedi newid y polisi ac mae'n adolygu'r defnydd o ISS fel rhan o amodau trwydded.
- Nid yw'r polisi adsefydlu yn sicrhau bod gwaith achos adsefydlu yn gyson.
- Nid oedd y geiriad mewn adroddiadau cyn-dedfrydu bob amser yn cynnig dull plentyn yn gyntaf sy'n ystyriol o drawma, yn enwedig wrth ystyried effaith bod yn y ddalfa ar blant. Fodd bynnag, mae'n gadarnhaol bod adolygu'r iaith mewn adroddiadau eisoes wedi'i nodi fel cam gweithredu yng nghynllun datblygu TrACE y GCI.
- Er y bu hyfforddiant mewn gwaith adsefydlu ar gyfer staff y GCI ac asiantaethau partner yn y gorffennol, nid oedd yr un wedi'i gwblhau'n ddiweddar.
- Mae rhai, ond nid pob un, o aelodau'r bwrdd rheoli yn gwybod beth yw proffil y plant yn y ddalfa, beth yw eu hanghenion, a pha wasanaethau fydd eu hangen gan asiantaethau partner ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

## Rhagor o wybodaeth

Mae'r canlynol i'w gweld ar ein gwefan:

data arolygu, gan gynnwys methodoleg a ffeithiau cyd-destunol am y GCI

rhestr termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.